

## Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2014/15

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cyngorydd: Nicola Roberts**

**Grwp: Plaid Cymru**

**Ward: Canolbarth Môn**

### 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Mae'r ail flwyddyn fel cyngorydd wedi bod yn ddiddorol a heriol. Rwyf wedi dechrau magu hyder ac yn mwynhau fy ngwaith. Rwyf wedi gwasanaethu fel deilydd portffolio cysgodol cynllunio ac wedi gwir fwynhau ac yn diolch am y cyfle a'r cefnogaeth gan fy nghyd aelodau a swyddogion. Rwyf yn ddiweddar wedi fy apwyntio fel deilydd portffolio cysgodol priffyrdd a gwastraff ac yn edrych ymlaen i her newydd a chael unwaith eto brofiad newydd a chyfle dysgu. Rwyf yn hapus o fod wedi cefnogi aelodau o'r cyhoedd yn mhob agwedd o'r gwaith. Rwyf yn parhau i ddysgu a herio penderfyniadau er mwyn bod yn llais cryf a gonest i'r cyhoedd.

Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	<sup>1</sup> Ffigyrau Presenoldeb
Cyngor	7 (64%)
Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion	12 (92%)
Pwyllgor Trwyddedu	1 (100%)
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd	0
Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.	
Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrrff allanol, er enghraifft.	

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu 3 chyfarfod).

### 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf yn parhau i fod yn lywodraethwr yn Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn ac yn mwynhau. Rwyf yn gyngorydd tref yn Llangefni ac yn trio mynychu cyn gymaint a sydd yn bosib o fy nghynghorau cymuned sef Llanddyfnan, Bodffordd, Gwalchmai a Bryngwran er yr ambell rhwystr oherwydd eu bod nhw ar yr un noson.

Rwyf yn parhau i fod ar gael i fy etholwyr drwy sawl ffynhonell gwahanol yn cynnwys ffon ty, ffon symudol, ebost, llythyrau, facebook, twitter ac wyneb yn wyneb sydd yn hynod o bwysig.

<sup>1</sup> Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Byddaf yn cadw mewn cyswllt gyda nifer o fudiadau lleol er mwyn bod yn ymwybodol o weithgareddau a digwyddiadau lleol. Rwyf wedi fy newis i fod yn bencampwr i Cymunedau'n Gyntaf - rhywbeth rwyf yn hynod o falch o gael gwneud.

Rwyf yn parhau i gyd weithio yn agos gyda fy ngrwp, aelodau Plaid Cymru yn cynnwys yr aelod cynulliad lleol Rhun Ap Iorwerth ac yr arweinydd Leanne Wood.

### **3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf yn dal i gefnogi gweithgareddau a digwyddiadau lleol ac ar gael iddynt am gymorth.

Rwyf yn dal i hysbysu a chefnogi mudiadau lleol efo ceisio am gyllid a byddaf yn parhau i wneud hyn.

### **4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf yn parhau i fod gydag angerdd i ddysgu ac yn edrych ymlaen i'r cyfleon fydd ar gael o fewn y flwyddyn nesaf.

Rwyf wedi cael profiad gwych fel deilydd portffolio cysgodol cynllunio ac yn edrych ymlaen i'r un cyfleon gyda phriffyrdd a gwastraff.

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Gweddarlledu	Mai 2014
Diogelu	Mai 2014
Gweddarlledu	Mehefin 2014

### **5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Rwyf yn dal i gadw cyswllt â fy nghymuned ac yn weithgar. Rwyf yn parhau i ddefnyddio y cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â fy etholwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth i fy ngwaith i o fewn y Cyngor a materion sydd yn cael eu trafod o fewn y cyngor. Rwyf yn parhau i fod yn llais gonest a chryf i'r cyhoedd ac yn gwneud yn siwr bod ei safbwyntiau nhw yn cael eu hadrodd o fewn pwyllgorau mewnol ac allanol. Rwyf yn mwynhau y ffaith bod rhai o cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu gweddarlledu ac yn gobeithio bod hyn yn gam ymlaen i'r Cyngor fod yn gweithredu mewn ffordd tryloyw a hygreddig i'r cyhoedd.

**Y Cynghorydd Nicola Roberts**

**Ebrill 2015**